



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

## CELF DDIGIDOL – LENS AR SAFLEOEDD TREFTADAETH

Tim Hill, Rheolwr Dysgu Gydol Oes (De Cymru), [Cadw](#)

Bu Cadw yn gweithio mewn partneriaeth â pyka, cwmni technoleg greadigol yng Nghasnewydd, sy'n darparu profiadau creadigol ar gyfer ysgolion, orielau ac amgueddfeydd, i ddatblygu ffordd gyffrous a hygyrch newydd i bobl ymgysylltu â safleoedd hanesyddol ledled Cymru.

Cyfrannodd amrywiaeth eang o unigolion, ag anghenion gwahanol ac o gefndiroedd gwahanol, i ddatblygu arf sy'n helpu i ddadorchuddio haenau dyfnach o ymgysylltu o fewn lleoliadau hanesyddol a'r ardal o'u cwmpas, mewn ffordd mae'n bosibl na fyddai ymwelwyr nodweddiadol yn ei darganfod ar eu telerau eu hunain.

P'un a ydych wedi bod i un o safleoedd Cadw lawer gwaith, neu erioed wedi ystyried safle hanesyddol fel rhywle i fynd iddo, mae'r app yn rhoi rheswm newydd i chi ymweld a ffordd newydd o ddarganfod y lleoedd rhyfeddol hyn, a grëwyd gan ein hynafiaid i fyw a gweithio ynddynt, ac a fu'n hoff gan ymwelwyr ac artistiaid ar hyd y blynyddoedd.

Mae'r app yn eich annog i edrych yn fanylach ar safleoedd hanesyddol ac i greu darnau unigryw o gelf ddigidol wrth wneud hynny. "Beth y gallwch ei glywed? Beth y gallwch ei deimlo? Beth y gallwch ei ddychmygu?" Mae'r arf digidol creadigol yn canolbwyntio ar yr haenau aml-synhwyraidd hyn, gan gyfoethogi a rhoi ystyr i'ch profiad a'ch ysgogi i wneud y defnydd mwyaf o'ch synhwyrau.

Drwy ddefnyddio'r arweinlyfr a Chynghorion y Ceidwaid, dewch i wybod am botensial yr arf digidol hwn, a fydd yn eich helpu i ddarganfod ac archwilio ein safleoedd treftadaeth ysblennydd a threftadaeth leol (wedi'i hesgeuluso o bosibl) mewn ffordd wahanol, greadigol, ysbrydoledig a symbylol. P'un a ddefnyddiwch yr app er mwyn hwyl yn unig neu fel adnodd dysgu – gan hybu cymhwysedd digidol, llythrennedd, celf ac ati ar hyd y ffordd neu i ennill Dyfarniad yn y Celfyddydau hyd yn oed – does dim gwahaniaeth. Efallai bod yr amser wedi dod i chi archwilio ac aildychmygu'r dreftadaeth adeiledig o'ch cwmpas yn eich 'byd-storïau' rhanadwy eich hun drwy pyka\_lens?

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

## Bywgraffiad

Mae Tim Hill wedi mwynhau gyrfa amrywiol yn cwmpasu Whitehall, canolfannau sgio, coedwigaeth, busnes, yr amgylchedd, Ymddiriedolaeth y Tywysog, a Thwristiaeth Ddigidol ac mae ganddo gefndir ym maes marchnata. Mae bellach yn Rheolwr Dysgu Gydol Oes Cadw a'i nod yw denu cynulleidfaoedd newydd a gwneud safleoedd hanesyddol yn hygyrch mewn ffyrdd newydd a gwahanol. Mae'n gyfrifol am weithgareddau addysgol ar gyfer ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol ar safleoedd Cadw yn Ne Cymru ac mae'n gweithio gyda llu o bartneriaid i ehangu mynediad i safleoedd Cadw a thargeddu cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd.